



BUCKINGHAM PALACE

Fel Llywydd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr bu gennyf gysylltiad personol â gwaith yr elusen ers tro byd gan fy mod yn teimlo ei bod mor bwysig fod gofalwyr yn cael yr holl gefnogaeth maen nhw'n ei haeddu.

Eleni eto, cefais y pleser o gyfarfod â gofalwyr o bob oed ac o ddysgu am eu sefyllfaoedd personol. Yn ein derbyniad blynyddol i gefnogwyr, gwnaeth y gofalydd ifanc 16 oed Becky argraff fawr arnaf wrth iddi siarad am sut mae'n gofalu am ei mam a'i chwaer. Atgoffodd fy ymweliad â Halton Carers yn Runcorn fi pa mor bwysig y mae fod gofalwyr yn gallu manteisio ar y gwasanaethau lleol a'r gefnogaeth mae ein mudiad yn eu darparu. Siaradodd gofalwyr a'r bobl sy'n eu cefnogi am werth gweithgareddau a digwyddiadau sy'n rhoi cyfle iddynt gyfarfod â gofalwyr eraill a chael seibiant gwerthfawr o ofalu, yn ogystal â gallu derbyn cyngor a gwasanaethau eiriolaeth.

Ynghyd â'i waith lleol ar lawr gwlad, mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr hefyd yn cefnogi gofalwyr trwy ei brosiectau cenedlaethol a rhanbarthol, megis y rhai sy'n targedu oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn yr ysgol ac mewn addysg bellach ac uwch.

Eleni gwelsom yr elusen yn parhau i ddylanwadu ar wneuthurwyr penderfyniadau a chodi ymwybyddiaeth er mwyn creu newid gwirioneddol ym mywydau pobl. Mae'n parhau hefyd i ddarparu rhaglen grantiau sylweddol, sy'n cynnig cymorth ariannol mawr ei angen tuag at eitemau hanfodol i ofalwyr ynghyd â galluogi gwasanaethau lleol i drefnu mwy o weithgareddau grŵp.

Gyda'ch cymorth chi, cyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr fwy na 500,000 o ofalwyr y llynedd, ond gan yr amcangyfrifir fod tua saith miliwn o ofalwyr yng ngwledydd Prydain heddiw mae mawr angen parhau i wneud mwy i adnabod a chefnogi gofalwyr. Diolch ichi am barhau i'n cefnogi.

Mae'r **Ymddiriedolaeth Gofalwyr** yn elusen o bwys, gydag ac ar gyfer gofalwyr. Gweithiwn i wella cefnogaeth, gwasanaethau a chydabyddiaeth i unrhyw un sy'n byw gyda heriau gofalu, yn ddi-dâl, am aelod o'r teulu neu gyfaill sy'n sâl/dost, eiddil, anabl neu sydd â phroblemau iechyd meddwl neu gaethineb.

Gwnawn hyn trwy rwydwaith ledled gwledydd Prydain o bartneriaid annibynnol y sicrhawyd

eu hansawdd a thrwy ddarparu grantiau i helpu gofalwyr i gael y cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt i fyw eu bywydau eu hunain. Gyda'r Partneriaid Rhwydwaith lleol hyn gallwn gefnogi gofalwyr yn eu cartrefi trwy ddarparu gofal amgen ac yn y gymuned gyda gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth emosiynol, cefnogaeth ymarferol a chyfle i gael egwyllion mawr eu hangen. Cynigiwn wasanaethau arbenigol i ofalwyr o bob oed a chyflwr ynghyd â nifer o wasanaethau cymorth personol a gweithgareddau grŵp gwahanol.



Cyflwyniad gan John McLean Cadeirydd, Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Dros y flwyddyn ddiwethaf cefais y fraint o ddod i adnabod yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, yn gyntaf trwy godi arian trwy gadeirio ein Pwyllgor Cyngerdd Carolau Nadolig cyntaf, ac yna trwy ymweld â'n Partneriaid Rhwydwaith, yr Uwch Reolwyr a thimau staff a llawer o ofalwyr.

Fe'm trawyd gan yr angerdd sydd gan bawb dros ofalwyr a'r penderfyniad i wneud mwy i helpu gwneud eu bywydau yn rhwyddach. Gwnaeth hynny imi fod eisiau gwneud mwy fy hun ac roeddwn wrth fy modd yn derbyn rôl y Cadeirydd.

Hoffwn ddiolch i Stuart Taylor, yr wyf yn ei ddilyn yn y Gadair, am ei arweiniad dros y blynyddoedd. Fe'n gadawodd mewn sefyllfa gref i barhau i gefnogi gofalwyr wrth inni gyflawni ein Fframwaith Strategol Gwneud i Ofalwyr Gyfrif.

Yn 2017, cynhaliodd Deloitte Adolygiad o'r Bwrdd trwy drefniant pro bono. Argymhellodd y casgliadau beth gwaith ad-drefnu a chryfhau ar ein prosesau llywodraethiant er mwyn wynebu heriau gwneud mwy i ddarparu ar gyfer gofalwyr. Edrychaf ymlaen at adeiladu ar waith y Bwrdd yn gweithredu'r newidiadau a byddwn yn defnyddio ffordd agored a thryloyw

o weithio.

Fe welwch o'n trosolwg ariannol fod gennym lwyfan cadarn ar gyfer tyfu'r gwaith ac i ddiwallu'r angen sy'n cynyddu'n ddi-baid - wrth i 6,000 o bobl ddod yn ofalwyr bob dydd mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i wneud hynny.

Trwy gydol yr adolygiad hwn mae cryfder ein ffordd o weithio ynghyd â darpariaeth leol gadarn trwy ein Partneriaid Rhwydwaith, ynghyd â phresenoldeb, proffil a throsolwg cryf ar lefel y DG, yn amlwg iawn. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid inni adeiladu arno.

Hoffwn ddiolch hefyd i'n Llywydd, Ei Huchelder Brenhinol, Y Dywysoges Frenhinol, am ei chefnogaeth barhaus i ofalwyr, ynghyd â'n cydweithwyr tîm, ein His Lywyddion a'n Hymddiriedolwyr am eu cefnogaeth a'u gwasanaeth diflino.

Edrychaf ymlaen at barhau'r daith i wneud yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn brif fudiad gofalwyr gwledydd Prydain.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'John'.

John McLean Cadeirydd,
Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Ein blwyddyn grynoa

Cefnogodd Rhwydwaith yr
Ymddiriedolaeth



Gofalwyr o
138 o
Bartneriaid
Rhwydwaith

500,000 o ofalwyr,
gan gynnwys **54,500**
o ofalwyr ifanc ac oedolion
ifanc sy'n ofalwyr.

Dyfarnwyd

£569,852 mewn
grantiau ar gyfer

6,825 o ofalwyr, gan
gynnwys **3,119** o
ofalwyr ifanc ac oedolion
ifanc sy'n ofalwyr.



Ymwelodd
397,789 o bobl
â'n gwefan i ofalwyr,
carers.org, gan ddod
o hyd i wybodaeth ar
bopeth o fudd-daliadau
i grantiau.



Mae **178** o ysgolion
yn Lloegr wedi ennill
Gwobr Gofalwyr Ifanc
mewn Ysgolion am arfer
da ac mae'r rhaglen yn
cael ei chyflwyno yng
Nghymru.

Helpodd ein rhaglen
fentora wirfoddol
tair blynedd ar gyfer
Prif Weithredwyr
yn Rhwydwaith yr
Ymddiriedolaeth
Gofalwyr **106** o Brif
Weithredwyr i ffocysu
ar ddarparu gofal
cynaliadwy i ofalwyr.

Yn Lloegr, mynychodd
221 o bobl ein hwyth
digwyddiad hyfforddi'r
hyfforddwyr ar Wella
Adnabyddiaeth o Ofalwyr
Ifanc.



Yng Ngogledd Iwerddon,
cysylltodd ein
Gwasanaeth Cefnogi
Gofalwyr â **317** o
ofalwyr newydd ar y ffôn,
trwy e-bost neu wyneb i
wyneb.



Daeth 470 o ofalwyr ifanc
o bob rhan o'r Alban at ei
gilydd i gael hwyl a hoe o
ofalu yn ein Gŵyl Gofalwyr
Ifanc Yr Alban.

Mae ein prosiect
Mynd yn Bellach gyda
phrifysgolion yng
Nghymru wedi cyrraedd
159 o oedolion ifanc
sy'n ofalwyr.



Gwneud gwahaniaeth gyda grant Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Mae eich cefnogaeth yn ein galluogi i ddarparu grantiau i ofalwyr fel Julie ledled gwledydd Prydain, gan eu helpu i brynu eitemau sylfaenol i'r cartref a'u cefnogi gydag anghenion mwy cymhleth.

Mae Julie yn 68 ac mae'n gofalu am ei g r 70 oed Thomas. Cafodd Thomas sawl strôc ac mae ganddo gancr a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint. Mae Julie yn rhoi cymorth 24 awr i Thomas gyda'i ofal personol a rheoli ei feddyginiaethau.

Mae anymataliaeth Thomas yn golygu fod Julie yn golchi dillad gwely byth a beunydd, ond oherwydd eu hincwm isel ni allai Julie fforddio prynu setiau sbâr i'w defnyddio tra bod y rhai sydd ganddynt yn sychu. Gyda chymorth The Rank Group Plc, rhoesom grant o £150 i Julie i brynu'r pethau yr oedd cymaint eu hangen arni.

“Roedd yn wych cael yr arian ac ni all geiriau ddisgrifio cymaint gwell y mae fy mywyd o'i herwydd. Erbyn hyn mae gen i ddillad a dillad gwely ychwanegol i'm helpu ac mae'r lefelau straen yn y tŷ cyfan wedi gostwng cymaint, rhyfeddol, diolch o galon.”

Julie

Dyfarnwyd grantiau gwerth

£569,852 ar gyfer

6,825 o ofalwyr, gan gynnwys

3,119 o ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr.

Mae gwyliau'r haf yn gallu bod yn anodd i lawer o ofalwyr ifanc gan ei fod yn aml yn golygu mwy o gyfrifoldebau gofalu gan eu bod gartref. Felly, rhoesom grant o £1,684 i Bartner Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr i Ganolfan Gofalwyr Dwyrain Swydd Renfrew i gefnogi gweithgareddau i helpu gofalwyr ifanc i allu mynd allan dros wyliau'r haf. Roedd pedair taith ar gael, ac i lawer o ofalwyr ifanc hon oedd yr unig daith a gawsant trwy'r haf.

“Ar y dechrau doedd hi ddim eisiau dod ar y teithiau hyn ...ond erbyn hyn mae wrth ei bodd arnyn nhw.” **Rhiant gofalydd ifanc**



Diolch i roddwyr hael yn cynnwys Sefydliad Pears, chwaraewyr y People's Postcode Lottery, The Rank Group Plc a Charles Russell Speechlys, mae ein grantiau yn galluogi gofalwyr i wella ansawdd eu bywyd eu hunain a chefnogi'r person maen nhw'n gofalu amdano neu amdani orau y gallant.

Codi ymwybyddiaeth a gwella'r gydnabyddiaeth i ofalwyr

Gweithio i ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth ledled y DG

Gweithiwn i ddylanwadu ar bolisiau Llywodraethau a'u ffyrdd o weithio trwy gyflwyno dadl gref yn seiliedig ar dystiolaeth o sut ellid cynnig gwell cefnogaeth i ofalwyr a gwasanaethau gofalwyr lleol. Mae hyn yn cynnwys:

- Grymuso gofalwyr a'u gwasanaethau i weithio gyda chynrychiolwyr etholedig a gwneuthurwyr penderfyniadau eraill i sicrhau bod anghenion gofalwyr a'u gwasanaethau yn cael eu deall yn llawn.
- Cyflogi staff arbenigol i sicrhau bod anghenion a lleisiau gofalwyr yn cael eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth a pholisiau Llywodraeth ar lefel genedlaethol a datganoledig.
- Adnabod arfer gorau, datblygu argymhellion, pecynnau cymorth a chanllawiau ac adnabod cyfleoedd i'w gweithredu.
- Deall anghenion grwpiau penodol o ofalwyr a gweithio i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Codi ymwybyddiaeth yn y cyfryngau, ar gyfryngau cymdeithasol ac ar-lein

Rhoddodd ein Diwrnod Ymwybyddiaeth Gofalwyr Ifanc ar 25 Ionawr sylw i blant sy'n ofalwyr. Cafodd y diwrnod sylw helaeth ar Twitter ac fe gawsom sylw helaeth ar y cyfryngau, gan gynnwys This Morning ar ITV, Newsround a Talk Radio. Gair enfawr o ddiolch i bawb a gefnogodd y diwrnod.

Cafodd ein fideo ar Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Gofalwyr Ifanc ei gweld **1,800** o weithiau ar YouTube.

Ymwelodd **397,789** o bobl â Carers.org, gan ddod o hyd i wybodaeth ar bopeth o fudd-daliadau i grantiau.

Cafodd **43,826** o ymwelwyr â <https://professionals.carers.org> gyfle i fanteisio ar adnoddau i'w helpu yn eu gwaith gyda gofalwyr.



Helpodd sylw arall ar y cyfryngau ni i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr, gan gynnwys:

- Gweddnewydd i gartref a gardd i ddau ofalydd ifanc yn Love Your Home and Garden gydag Alan Titchmarsh.
- Storiâu ysbrydoledig gan ofalwyr yn rhifyn Nadolig arbennig y cylchgrawn My Weekly ac erthygl am ofalwyr a llesiant yng nghylchgrawn Pick Me Up.

ADVANCE oedd ein rhaglen tair blynedd i fentora gwirfoddolwyr ar gyfer Prif Weithredwyr yn Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr ledled gwledydd Prydain. Helpodd **44** o fentoriaid **106** o Brif Weithredwyr i ffocysu ar ddarparu cefnogaeth leol gynaliadwy i ofalwyr gyda deunyddiau rhad ac am ddim yn <https://professionals.carers.org/advancementoring-scheme>. Diolch i Sefydliad Esmée Fairbairn am y cyllid, a chefnogaeth ychwanegol gan Sefydliad Pears.

Ni allem wneud ein gwaith heb help ein holl gefnogwyr unigol a rhoddwyr sylweddol sy'n cefnogi ein gwaith. Gair mawr o ddiolch i bob un ohonynt gan gynnwys Mary Bishop, Kevin Green, Michael R Oliver DL, OBE a Sefydliad TJH.

Gwasanaethau cynaliadwy ledled y DG

Gweithio gyda gwasanaethau gofalwyr lleol

Ni yw'r darparwyr mwyaf o wasanaethau gofalwyr yng ngwledydd Prydain. Yn 2017/18:

Buom yn cefnogi **500,000** o ofalwyr, gan gynnwys **54,500** o ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr.

Buom yn gweithio â rhwydwaith o **138** o Bartneriaid Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr – gwasanaethau lleol annibynnol ar gyfer gofalwyr o bob oed, yn cefnogi pobl ag unrhyw gyflwr. Mae **76%** o Bartneriaid Rhwydwaith yn darparu gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr.

Eleni, croesawyd Tower Hamlets Carers Centre a Care 4 Carers yng Nghaeredin yn aelodau newydd.

Arwain ar ddarparu gwasanaethau

Rydym yn cefnogi Partneriaid Rhwydwaith sy'n darparu gwasanaethau gofal a chefnogaeth wedi'u rheoleiddio ar draws Lloegr a Chymru trwy ddarparu fframwaith polisi sy'n sail i'w gweithgareddau gofal ac sy'n golygu y gall gofalwyr gael saib gwirioneddol o ofalu. Mae cyflwyno newidiadau'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) wedi golygu ein bod wedi parhau i ddatblygu'r fframwaith hwn i hyrwyddo safonau uchel wrth ddarparu gwasanaethau, gyda chefnogaeth hyfforddiant GDPR ac adnoddau sydd ar gael i'r holl Bartneriaid Rhwydwaith.

Cystadlu yn yr amgylchedd comisiynu

Darparodd ein partner – Tender Management Community Services – hyfforddiant pwrpasol ar

gyfer 61 o staff Partneriaid Rhwydwaith ar yr amgylchedd comisiynu. Roedd hyn yn cynnwys sut i addasu i wynebu newidiadau a heriau newydd awdurdodau comisiynu er mwyn ennill cyfleoedd tendro.

Hyfforddiant arbenigol yn y cenhedloedd

Eleni buom yn cyflwyno pum sesiwn o gyngor arbenigol ar faterion fel llywodraethiant ac Adnoddau Dynol i Bartneriaid Rhwydwaith yng Nghymru. Yn Yr Alban, elwodd 185 o staff Partneriaid Rhwydwaith o'n 31 sesiwn hyfforddiant mewn meysydd yn cynnwys codi arian, y Ddeddf Gofalwyr ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl.

Rhannu arfer gorau

Daeth 204 o gynrychiolwyr ynghyd ar gyfer ein cynhadledd ddeuddydd ar gyfer Partneriaid Rhwydwaith yn Lloegr. Y thema oedd arweinyddiaeth ac ymddiriedaeth, a rhoddodd sesiynau dewisol gyfleoedd i rannu arfer da a dysgu gan arbenigwyr. Diolchiadau arbennig i'n noddwyr Watson Laurie a Pastel Solutions.




Ni fyddai ein gwaith yn bosib heb gefnogaeth ein partneriaid elusennol. Gair mawr o ddiolch i'r Cynllun Gerddi Cenedlaethol a'r holl roddwyr eraill a helpodd gefnogi gofalwyr eleni

Gwneud i ofalwyr gyfrif yn Yr Alban

Dod â gofalwyr ifanc at ei gilydd

Eleni dathlwyd degfed pen-blwydd Gw^yl Gofalwyr Ifanc boblogaidd Yr Alban. Diolch i arian gan Lywodraeth Yr Alban, daeth 470 o ofalwyr ifanc ar draws Yr Alban at ei gilydd i gael hwyl a hoe rhag gofalu. Cawsant gyfle hefyd i siarad â'r Gweinidog dros lechyd Cyhoeddus a Chwaraeon am y materion sy'n eu heffeithio fel gofalwyr ifanc.

Yn YR ALBAN, cefnogodd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr 22,300 o ofalwyr, gan gynnwys 2,300 o ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr trwy Rwydwaith yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr o Bartneriaid Rhwydwaith annibynnol.



“Mae'r arian yma'n golygu na fydd myfyrwyr eraill sy'n ofalwyr yn gorfod dioddef y pryderon a'r straen ychwanegol a gefais i trwy gydol fy nghyfnod yn y coleg.”

Oedolyn ifanc sy'n ofalydd

Grymuso gweithwyr proffesiynol i weithio gyda gofalwyr ifanc

Mae ein partneriaeth Ewropeaidd, a ariannwyd gan Raglen Erasmus+ yr Undeb Ewropeaidd, wedi'n galluogi i gynnwys ein grŵp Llais i Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr yn y gwaith o ddatblygu'r Wobr Gydnabyddiaeth Mynd yn Bellach. Mae hon yn gwobrwyo prifysgolion am arfer da yn adnabod, cefnogi ac adrodd ar ofalwyr ifanc.

Gwneud i ofalwyr gyfrif yng Nghymru

Cefnogi gofalwyr sy'n fyfyrwr

Diolch i arian gan Sefydliad Waterloo, mae prosiect Mynd yn Bellach yn annog prifysgolion yng Nghymru i fabwysiadu polisïau sy'n gweddu i ofalwyr er mwyn cefnogi oedolion ifanc sy'n ofalwyr mewn addysg uwch. Gan ein bod wedi cyrraedd 159 o oedolion ifanc sy'n ofalwyr hyd yn hyn, rydym eisoes wedi mynd heibio ein targed o gysylltu â 140 o oedolion ifanc sy'n ofalwyr dros gyfnod o dair blynedd. Rydym hefyd wedi cyrraedd ein nod o ymwneud â phob prifysgol yng Nghymru, ac mae nifer wedi addasu eu polisïau.

- Buom yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor er mwyn cynnal sesiwn breswyl i 49 o oedolion

Yng NGHYMRU, cefnogodd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr

28,500 o ofalwyr, gan gynnwys 1,700 o ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr trwy Rwydwaith yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr o Bartneriaid Rhwydwaith annibynnol.

ifanc sy'n ofalwyr a buom yn cynnal sesiynau blasu mewn tair prifysgol.

- Yn dilyn ein hyfforddiant ar anghenion gofalwyr i staff y brifysgol, mae Prifysgol Caerdydd wedi adnabod cynnydd o 500% yn nifer y gofalwyr ymhlith y myfyrwyr diweddaraf a dderbyniwyd ganddynt.
- Bu ein Cyngor Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr yn gweithio gyda myfyrwyr ym Mhrifysgol De Cymru i ddatblygu tair fideo codi ymwybyddiaeth.

Mantolen gyfunol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018

Ein haddewid codi arian

Ymfalchiwn ein bod yn fudiad hawdd ymwneud ag ef ac mae croeso ichi ofyn inni am wybodaeth am sut rydym yn gwario ein harian ar unrhyw adeg. Gallwch weld sut rydym yn defnyddio eich rhodd i'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr a rhai o'r ffyrdd y gall eich arian fod o gymorth uniongyrchol i ofalwyr yn Carers.org/donating-carers-trust.

Heb haelioni'r cyhoedd ni allem barhau â'n gwaith. Credwn ei bod yn hanfodol ein bod yn glir ac agored am sut rydym yn codi ein harian ac am y gwahanol ffyrdd sydd ar gael i bobl i helpu'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr. Mae pobl yn codi arian inni mewn nifer o ffyrdd gwahanol:

- Gall cefnogwyr gofrestru i wneud cyfraniad rheolaidd, gallwch roi inni trwy ein hapeliadau, neu gymryd rhan mewn digwyddiadau her.
- Rydym hefyd yn gofyn i bobl adael rhodd yn eu hewyllys.
- Rydym yn gweithio gyda nifer o bartneriaid corfforaethol.
- Cawn gefnogaeth hefyd gan nifer o ymddiriedolaethau elusennol a sefydliadau, yn ogystal â rhoddion dyngarol gan roddwyr sylweddol.

Cofrestrwyd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr gyda'r Rheoleidddydd Codi Arian.

	2018	2017
	£	£
Asedau sefydlog		
Asedau diriaethol (adeiladau a chyfrifiaduron)	160,113	164,715
Buddsoddiadau		
Buddsoddiadau	0	740,947
Cyfanswm asedau sefydlog	160,113	905,662
Asedau cyfredol		
Dyledwyr (arian sy'n ddyledus inni)	716,243	626,577
Adneuon arian	846,564	841,558
Arian yn y banc ac mewn llaw	1,311,332	774,507
	2,874,139	2,242,642
Credydwyr (arian sy'n ddyledus gennym ni)	(338,864)	(795,756)
Asedau cyfredol net	2,535,275	1,446,886
Asedau net	2,695,388	2,352,548
Cronfeydd		
Cronfeydd cyfyngedig (ar gyfer prosiectau penodol)	1,267,684	1,820,261
Cronfeydd anghyfyngedig (at ddefnydd cyffredinol)	1,427,704	532,287
Cyfanswm cronfeydd	2,695,388	2,352,548

Daw'r ffigyrau uchod o'r cyfrifon archwiliedig a gymeradwywyd ar 18 Medi 2018

Big Lottery Fund England
Big Lottery Fund Northern Ireland
Chillag Family Charitable Trust, The
Comic Relief
Constance Travis Charitable Trust, The
Donald Forrester Trust, The
Elizabeth Frankland Moore and Star
Foundation, The
Esmée Fairbairn Foundation, The
Gannochy Trust
Elusen Gwendoline a Margaret Davies
Hugh Fraser Foundation, The
Jill Franklin Trust, The
Kathleen Hannay Memorial Charity, The
M and C Trust
Moffat Charitable Trust, The
National Garden Scheme
Nominet Trust
Peter Westropp Memorial Trust, The
Portrack Charitable Trust, The
Princess Anne's Charities Trust, The
Robertson Trust, The
Samuel Storey Family Charitable Trust, The
Schroder Charity Trust, The
Shaw Foundation, The
Simon Gibson Charitable Trust
Stichting Teuntje Anna (TA Fund)
Susan H Guy Charitable Trust, The
Waterloo Foundation, The

Llywodraeth

CDHN (Rhwydwaith Iechyd Datblygu
Cymunedol)
Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Erasmus+Rhaglen yr Undeb Ewropeaidd
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Comisiwn Ewropeaidd – Horizon 2020
Llywodraeth Yr Alban
Llywodraeth Cymru

Cymynwraig

Gwendoline Mabel Clarke

“Roedd rhywun yn gofyn imi am
salwch fy merch a sut mae hi
pan mae hi'n iach yn rhoi mwy
o deimlad o werth ac o bwrpas
imi.” **Gofalydd**





Ymddiriedolaeth Gofalwyr
32-36 Stryd Loman
London SE1 0EH
Ffôn: 0300 772 9600
Ebost: info@carers.org

Carers.org
<https://professionals.carers.org>

 www.facebook.com/CarersTrust

 www.twitter.com/CarersTrust

 www.youtube.com/user/CarersTrust

Ymddiriedolaeth Gofalwyr
10 Regent Place
Rugby CV21 2PN
Ffôn: 01788 573653

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
3ydd Llawr,
33–35 Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd CF11 9HB
Ffôn: 02920 090087

Ymddiriedolaeth Gofalwyr yr Alban
Spaces
Tay House
300 Bath Street
Glasgow G2 4JR
Ffôn: 0300 772 7701

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn elusen gofrestrdedig yn Lloegr a Chymru (1145181) ac yn Yr Alban (SCO42870).

Cofrestrwyd fel cwmni cyfyngedig drwy warant yn Lloegr a Chymru rhif 7697170.

Swyddfa gofrestrdedig: 32-36 Stryd Loman, Llundain SE1 0EH.

© Ymddiriedolaeth Gofalwyr 2018.

Llun ar dudalen 6 diolch i Photofusion Pictures.

Modelau sy'n ymddangos yn yr holl luniau llyfrgell ac eithrio ar dudalennau 3, 4, 9 ac 14. Oherwydd natur sensitif ein gwaith rydym wedi newid enwau'r gofalwyr a'r sawl y maent yn gofalu amdanynt yn yr adolygiad blynyddol hwn.